

IS-BWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MERCHER, 8 TACHWEDD 2023

Yn Cynghorydd Michael (Cadeirydd)
bressenol:
Cynghorwyr Driscoll a/ac Gunter

1 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD - Bod yr eitem ganlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio rhag cael ei chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r cyhoedd wedi'i wahardd o'r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

2 : MATERION CERBYD HACNI/LLOGI PREIFAT

PENDERFYNWYD - Y dylid ymdrin â'r materion canlynol fel y nodir:

(1) Achos 1

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried cwyn a dderbyniwyd gan aelod o'r cyhoedd oedd yn honni bod gyrrwr yn gwrthod mynd ag ef a'i wraig anabl o Ysbyty'r Mynydd Bychan i Ystum Taf, a dywedodd wrthynt hefyd na fyddai'n cymryd taith am lai na £10. Honnir ymhellach fod y gyrrwr wedi defnyddio iaith ymosodol tuag at yrrwr arall a'i heriodd am beidio â chymryd y daith.

Anerchodd y gyrrwr yr Is-bwyllgor, gan ddweud nad oedd wedi gwrthod y daith a'i fod yn hytrach wedi ceisio ei roi i'r gyrrwr nesaf yn y safle tacsis oherwydd ei fod yn ymwybodol bod y gyrrwr hwnnw'n gadael y safle tacsis yn fuan i fynychu taith i'r ysgol. Nid oedd yn cofio defnyddio unrhyw iaith ymosodol ac awgrymodd fod gan y gyrrwr arall dan sylw broblem bersonol gydag ef.

Anerchodd yr achwynydd yr Is-bwyllgor, gan ailadrodd dilyniant y digwyddiadau a amlinellwyd yn ei ddatganiad tyst. Roedd y gyrrwr wedi gwrthod mynd ag ef a'i wraig i Ystum Taf, gan ddweud ei fod yn aros am rywun ac yna dweud na chymerai teithiau llai na £10.

Aeth yr achwynydd at yr ail dacsï ar y safle. Esboniodd beth oedd wedi digwydd i'r gyrrwr ond roedd yn dal i fod o fewn clust i'r gyrrwr cyntaf. Gofynnodd yr ail yrrwr i'w gydweithiwr pam roedd wedi gwrthod y daith. Dywedodd y gyrrwr cyntaf wrtho i 'fuck off and mind your own business', ac yna 'fuck off' eto. Dywedodd yr achwynydd mai ar yr adeg hon y derbyniodd y gyrrwr cyntaf taith arall a gadawodd y safle.

Dywedodd yr achwynydd fod gyrrwr yr ail gerbyd yn anhapus a'i

fod ef ei hun wedi cynhyrfu. Gofynnodd i'r gyrrwr am wybodaeth ar sut i gyflwyno cwyn a chafodd y manylion perthnasol.

Trafododd yr Is-bwyllgor y ddwy fersiwn o ddigwyddiadau a chytunodd fod y tyst yn darparu tystiolaeth fwy credadwy. Gofynnodd yr Aelodau pam mae'r gyrrwr nawr wedi cofio'n llawn o'r digwyddiad, yn wahanol i'r datganiad ysgrifenedig a ddarparodd lle nododd na allai gofio unrhyw fanylion am y digwyddiad.

PENDERFYNWYD – Atal y drwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat am 28 diwrnod oherwydd gwrthod taith ac ymddygiad annerbyniol.

(2) Achos 2

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried cwyn a dderbyniwyd gan Dragon Taxis ynghylch digwyddiad a gofnodwyd ar fideo gan aelod o'r cyhoedd ac a ddarparwyd iddynt wedyn. Dywedodd y Rheolwr Trwyddedu ei fod hefyd wedi derbyn fideo o'r digwyddiad gan ffrind i'r gyrrwr.

Gwelodd yr aelodau dri chlip fideo o'r digwyddiad, a dywedwyd wrthynt fod y fideos yn dangos ffrwgwd yn cynnwys gyrrwr cerbyd trwyddedig yn arddangos lifrai Dragon Taxis a nifer o unigolion eraill. Fodd bynnag, nid tacsï Dragon oedd y cerbyd ac nid oedd y gyrrwr yn cael ei gyflogi ganddynt. Eglurodd y Pwyllgor hunaniaethau'r rhai a gymerodd ran.

Gofynnodd yr Is-bwyllgor sut roedd y digwyddiad wedi dechrau. Dywedodd y gyrrwr fod car yn rhwystro cyffordd gan achosi i draffig Gronni. Gofynnodd i yrrwr y cerbyd symud. Aeth y gyrrwr arall allan o'i gar, mynd ato a defnyddio iaith ymosodol. Dywedodd y gyrrwr ei fod yn teimlo dan fygythiad, felly roedd yn esgus cael arf o gist ei gerbyd er mwyn dychryn ei ymosodwr, ond mewn gwirionedd roedd yn het yn ei law.

Trafododd yr aelodau y digwyddiad a chytunwyd y gallai'r gyrrwr fod wedi teimlo'n rhwystredig oherwydd bod y ffordd yn cael ei rhwystro, ond ei fod wedi colli ei dymer ac wedi gwaethygu'r sefyllfa.

Ni argyhoeddwyd y Pwyllgor gan awgrym y gyrrwr mai dim ond het yr oedd wedi bod yn ei ddal, gan ei bod yn ymddangos bod y fideo yn dangos gwrthrych miniog yn ei law. Disgrifiodd y tyst hefyd y gyrrwr fel 'dal gwrthrych miniog yn bygwth trywanu rhywun' yn ystod y sylwebaeth ar y fideo. Roedd yr aelodau yn teimlo ei fod yn amlwg wedi gwneud ystum bygythiol, waeth beth oedd y gwrthrych.

Nododd yr aelodau hefyd fod gan y gyrrwr logo Dragon Taxis ar ei gar er nad oedd yn gweithio iddynt, y gellid ei ystyried yn

dwyllo drus neu'n gamgyfleu.

Gadawodd y gyrrwr y gwrandawriad ac aeth y gwrandawriad ymlaen yn ei absenoldeb.

PENDERFYNWYD - Y dylid tynnu'n ôl y Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni / Hurio Preifat.

(3) Achos 3

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor benderfynu a oedd gyrrwr tacsï yn parhau i fod yn berson addas a phriodol i barhau i ddal Trwydded Gyrrwr Hurio Preifat o ystyried bod euogfarn moduro am IN10 (yn defnyddio cerbyd heb yswiriant) wedi'i ddangos ar ei wiriad DVLA fel rhan o'i adnewyddiad trwydded.

Dywedodd y gyrrwr nad oedd gan ei euogfarn unrhyw beth i'w wneud â'i rôl fel gyrrwr tacsï. Roedd wedi prynu cerbyd preifat ac roedd yn gyrru hwnnw ar adeg y drosedd. Cafodd yr aelodau wybod bod y cerbyd wedi cael ei brynu gyda nifer o ddiffygion mecanyddol. Aeth â'r cerbyd i garej gan ddefnyddio yswiriant dros dro am 1 awr. Nid oedd wedi sylweddoli bod yr yswiriant wedi dod i ben pan argymhellodd y peiriannydd ei fod yn gyrru'r car ymhellach nag oedd angen ar ei daith gartref er mwyn sicrhau bod y car mewn cyflwr da. Cafodd ei stopio gan yr heddlu a ganfu nad oedd y car wedi ei yswirio. Fodd bynnag, nid oedd yn gallu defnyddio ei ffôn i ddangos bod y car wedi'i yswirio yn gynharach y diwrnod hwnnw. Roedd wedi derbyn 6 phwynt ar ei drwydded a dirwy.

Wrth ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, eglurodd y gyrrwr ei fod wedi gwneud cais am drwydded tacsï gyntaf yn 2020, ac roedd y digwyddiad wedi digwydd ym mis Ionawr 2023. Nid oedd ganddo unrhyw bwyntiau ar ei drwydded ar wahân i'r chwech a gafodd am y drosedd hon.

PENDERFYNWYD - Y câi'r gyrrwr rybudd ysgrifenedig am drosedd gyrru.

(4) Cais 4

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried cais am drwydded gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod yr ymgeisydd wedi ei gael yn euog o drosedd curo yn 2017.

Dywedodd cynrychiolydd y gyrrwr nad oedd y gyrrwr wedi bwriadu twyllo unrhyw un trwy beidio â datgan ei euogfarn. Roedd rhywfaint o ddryswch oherwydd bod y wefan a ddefnyddiwyd i gwblhau'r cais yn cynnwys gwybodaeth hen neu gamarweiniol.

Dywedodd cynrychiolydd y gyrrwr fod yr euogfarn o ganlyniad i

ddigwyddiad domestig ym mis Hydref 2017. Roedd yr ymgeisydd yn hynod edifar. Roedd yr ymgeisydd a'i wraig yn dal gyda'i gilydd ac yn briod yn hapus ar ôl 35 mlynedd. Roedden nhw wedi rhedeg siop gyda'i gilydd ers blynyddoedd lawer, ac yn ystod y cyfnod hwnnw cafodd drwydded bersonol i werthu alcohol, gan ddangos ei fod yn unigolyn cyfrifol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, eglurodd fod ei wraig ac ef wedi ffraeo'n ddifrifol yn 2017 a oedd yn cynnwys teulu estynedig yn India ar ffôn symudol. Cymerodd y wraig y ffôn a gofyn siarad â nhw. Wrth geisio adfer y ffôn oddi wrth ei wraig, achosodd hyn iddi daro ei phen ar wal. Cafodd yr heddlu eu galw. Roedd ei wraig yn bresennol a dywedodd wrth yr Is-bwyllgor nad oedd unrhyw beth wedi digwydd ers y digwyddiad hwn. Gweithiodd y teulu gyda'i gilydd yn dda iawn. Ychwanegodd y gyrrwr ei fod yn hyderus y gallai ddelio â straen y swydd yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD - cymeradwyo cais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Hurio Preifat y gyrrwr.

(5) Cais 5

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried cais am roi Trwydded Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat y gyrrwr. Rhoddwyd gwybod i Aelodau fod gan yr ymgeisydd gollfarn berthnasol ar ei GDG yn ymwneud â throsedd o 1994.

Dywedodd y gyrrwr ei fod yn ailymgeisio am drwydded, ar ôl dal un tan 2008 yn flaenorol. Ers hynny roedd wedi gweithio'n llawn amser fel gyrrwr bws i National Express a Bws Caerdydd. Roedd ganddo brofiad o weithio gyda'r cyhoedd yn gyffredinol, gan gynnwys oedolion a phlant agored i niwed, ac nid oedd erioed wedi cael problem yn ystod y cyfnod hwnnw. Roedd yr euogfarn o tua 30 mlynedd yn ôl pan oedd yn ifanc ac yn wirion, ac fe dderbyniodd ei fod wedi gwneud camgymeriad yr oedd wedi cael ei gosbi amdano.

PENDERFYNWYD - cymeradwyo cais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Hurio Preifat y gyrrwr.

(6) Achos 6

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried cwyn a dderbyniwyd gan aelod o'r cyhoedd bod y gyrrwr wedi ceisio codi £6 i gymryd ci cymorth a'i fod wedi gwahaniaethu yn erbyn yr achwynydd.

Gwylodd yr Is-bwyllgor fideo o'r digwyddiad a gyflwynwyd gan yr achwynydd.

Wrth annerch yr Is-bwyllgor, dywedodd y gyrrwr na chafodd wybod ar yr archeb y byddai ci. Cyrhaeddodd y lleoliad codi ac

roedd y ci ychydig fetrau i ffwrdd ac nid oedd yn gwisgo unrhyw ddiillad gweladwy, felly eglurodd i'r teithwyr y byddai'n rhaid iddo ddechrau'r mesurydd ar £6.

Gofynnodd y teithiwr a oedd y gyrrwr yn deall beth oedd yr harnais gweladwy yr oedd y ci yn ei wisgo. Atebodd y gyrrwr ei fod yn deall. Nid oedd ganddo unrhyw broblem gyda chŵn, dim ond na soniwyd amdano ar yr archeb.

Dywedodd yr achwynwyr ei fod wedi galw'r swyddfa i egluro na ddylid codi tâl am gi cynorthwyol. Erbyn hynny roedd yn teimlo'n anghyfforddus, felly gadawodd y tacsï a mynd i mewn i un arall. Disgrifiodd yr achwynydd y digwyddiad fel profiad diangen ac annifyr.

Ceisiodd yr aelodau egluro a oedd y gyrrwr yn ymwybodol o bolisiau'r gweithredwyr ar gŵn cymorth ac anifeiliaid anwes. Dywedodd y gyrrwr y bydd y mesurydd yn dechrau ar £6 ar gyfer ci anwes. Ar gyfer cŵn cymorth nid oes tâl ychwanegol. Gofynnodd yr aelodau pam y byddai ots a oedd hysbysiad bod ci wedi'i grybwyll adeg yr archeb. Dywedodd y gyrrwr nad oedd yn gweld y ci cymorth ar y dechrau oherwydd y gwelededd gwael yr oedd felly wedi synnu.

Gofynnodd yr aelodau pam mae'r gyrrwr wedi mynnu ffi o £6 ar ôl cael gwybod mai ci tywys ydoedd. Dywedodd y gyrrwr nad oedd yn ymwybodol ac nad oedd ei sgiliau Saesneg yn rhy dda. Amlygodd y fideo fod rhwystr iaith.

Atgoffodd yr achwynwyr yr Aelodau fod y gyrrwr yn honni bod ganddo alergedd i gŵn i ddechrau, ond ni allai ddarparu tystysgrif eithrio pan ofynnwyd iddo.

Dywedodd yr achwynydd fod digwyddiadau fel hyn yn digwydd yn rheolaidd gyda gyrrwyr tacsï yng Nghaerdydd yn ei brofiad. Roedd yr achwynydd o'r farn y dylai'r mater fod gerbron yr Ynadon. Ni ystyriwyd bod y rhwystr iaith yn ffactor pwysig yn y digwyddiad gan fod y gyrrwr yn dal i ddweud ei fod yn deall. Ni ddylid gadael pobl ddall allan ar y stryd.

Roedd y Pwyllgor yn cytuno bod y fideo yn dangos yn glir nad camddealltwriaeth yn unig ydoedd, ac roedd y gyrrwr yn ceisio codi tâl a ffi ychwanegol. Cadarnhawyd bod gan bob gyrrwr hyfforddiant cŵn cymorth fel rhan o'u cymhwyster SQA. Roedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod nad oedd gan y gyrrwr hanes o droseddau, ond roedd gwrthod pris i rywun oherwydd nodwedd warchoddedig yn annerbyniol.

PENDERFYNWYD – Atal y drwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat am 7 diwrnod oherwydd gwrthod taith a cheisio codi ffi ormodol.

(7)

Achos 7

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor benderfynu a oedd gyrrwr yn parhau i fod yn berson addas a phriodol i barhau i ddal Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Hurio Preifat ar ôl i gŵyn gael ei dderbyn yn nodi ei fod yn gwrthod cymryd ci cymorth a honnodd fod ganddo gyflwr meddygol.

Wrth annerch yr Is-bwyllgor, dywedodd y gyrrwr wrth iddo gasglu'r achwynwyr o'u tŷ eu bod yn ei recordio ar ffôn symudol, a oedd wedi ei drysu. Roedd yn tisian ac yn benysgafn ar y pryd, ond aeth â nhw i'w cyrchfan.

Gofynnodd yr aelodau a oedd gan y gyrrwr alergedd a thystysgrif eithrio. Cadarnhaodd y gyrrwr nad oedd ganddo dystysgrif eithrio ac nad oedd wedi gweld meddyg am gael un ers y digwyddiad. Nid oedd ganddo alergedd i gŵn.

Anerchodd yr achwynydd yr Is-bwyllgor, gan bwysleisio y byddai'r gyrrwr wedi gwybod bod ganddo nam ar ei olwg oherwydd bod harnais ei gi tywys wedi'i labelu'n glir. Bu'n rhaid iddo ef a'i bartner dreulio 10 munud yn esbonio i'r gyrrwr pam roedd yn rhaid iddo fynd â nhw a'r ci, na ddylen nhw fod wedi gorfod ei wneud. Roedden nhw wedi methu trê'n oherwydd yr oedi wnaeth effeithio ar eu gwaith.

Ychwanegodd partner yr achwynydd ei fod wedi dechrau ffilmio am iddo weld y gyrrwr yn edrych arnyn nhw wrth iddyn nhw nesáu at y car ac amau y byddai'n gwrthod gadael y ci i mewn.

PENDERFYNWYD – Atal y drwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat am 7 diwrnod oherwydd ymddygiad annerbyniol.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:00.